**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /**

**WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON**

**17.07.01**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

# OPIN-2001-0038 Cyhoeddi Lwfansau Aelodau'r Cynulliad/ Publication of AM's allowances

12 Jul 2001 Raised by David Melding

1 Subscriber:

Peter Rogers

*Cyhoeddi Lwfansau Aelodau'r Cynulliad*

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn:*
*- yn nodi bod Senedd yr Alban yn cyhoeddi rhestr flynyddol o'r lwfansau a hawlir gan bob un o Aelodau Senedd yr Alban;*
*- yn credu y dylai gwybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd oni bai fod cyfrinachedd neu faterion yn ymwneud â lles y cyhoedd yn rhwystro hynny;*
*- yn cytuno â galwadau gan y cyhoedd a'r cyfryngau i Swyddfa'r Llywydd gyhoeddi rhestr flynyddol o'r lwfansau a hawlir gan bob Aelod o'r Cynulliad.*

*Publication of AM's allowances*

*This National Assembly:*
*- notes that the Scottish Parliament annually publishes the allowances that each MSP claims;*
*- believes that information should be made available to the public unless there are overwhelming public interest or confidentially issues at stake and;*
*- agrees with calls from the public and the media that the Presiding Office should annually*

*publish the allowancesclaimed by each Assembly Member.*

## OPIN-2001-0037 Condemnio Rali arfaethedig y British National Party yng Nghymru / Condemnation of The British National Party's proposed Rally in Wales

11 Jul 2001 Raised by Christine Gwyther

9 Subscribers:

- Alison Halford
- Tom Middlehurst
- Dr Brian Gibbons FRCGP
- Peter Black
- Michael German OBE
- Christine Chapman
- Rhodri Glyn Thomas
- Lorraine Barrett
- Karen Sinclair

*Condemnio Rali arfaethedig y British National Party yng Nghymru*

*"Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gresynu at fwriad y British National Party i gynnal rali yng Nghymru ar benwythnos 11 Awst, yn enwedig yng ngoleuni'r achosion o drais yn gysylltiedig â hiliaeth yn Oldham, Burnley a Bradford o ganlyniad uniongyrchol i gyffro a grewyd gan y BNP a grwpiau adain dde eraill, ac yn galw ar David Blunkett, yr Ysgrifennydd Cartref, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gymryd y camau mwyaf llym mewn perthynas â phresenoldeb yr heddlu a rheoli'r rali os nad oes modd iddynt ei atal."*

*Condemnation of The British National Party's proposed Rally in Wales*

*"The National Assembly for Wales deplores the proposed holding of a rally by the British National Party , in Wales on the weekend of 11th August, especially in the light of recently racially incited violence in Oldham, Burnley and Bradford as a direct result of agitation by the BNP and other right-wing groups, and calls upon the Home Secretary David Blunkett together with the Secretary of State for Wales to exercise the most stringent measures to police and control the rally if they are unable to stop it taking place".*

# OPIN-2001-0026 Y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaeth/ The General Agreement on Trade in Service

03 May 2001 Raised by Peter Black

7 Subscribers:

Cynog Dafis
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Janet Ryder
Kirsty Williams
John Griffiths LLB
Phil Williams
Gareth Jones

*Mae'r Cynulliad yn croesawu'r datganiad ym Mhapur Gwyn diweddar y Llywodraeth ar Globaleiddio, sy'n cydnabod rôl y llywodraeth o safbwynt sicrhau bod gwasanaethau sylfaenol yn cael eu darparu i bawb; yn nodi bod trafodaethau'n cael eu cynnal er mwyn ehangu cwmpas y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaeth (GATS) y WTO; bod y GATS yn berthnasol i bob gwasanaeth y mae modd ei fasnachu, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, os cânt eu darparu'n fasnachol neu mewn cystadleuaeth â chyflenwyr eraill; bod y GATS yn berthnasol i bob lefel o'r llywodraeth, gan gynnwys awdurdodau lleol; ac yn galw ar y Llywodraeth i asesu'r effaith tebygol y bydd ehangu'r GATS yn ei gael ar ddarparu gwasanaethau allweddol.*

*The Assembly welcomes the statement in the Government's recent Globalisation White Paper recognising the role of government in ensuring basic services are provided to all; notes that negotiations to expand the reach of the WTO's General Agreement on Trade in Service (GATS) are underway; that the GATS applies to all trade-able service, including public services, if they are provided commercially or in competition with other suppliers; that the GATS applies to all levels of government, including local authorities; and calls for the Government to assess the likely impact of the extension of the GATS on the provision of key services.*